

Rhif: WG40088



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori - Crynodeb o'r ymatebion

## **Cod ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol**

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru

<b>Cynulleidfa</b>	Awdurdodau Lleol, sefydliadau'r Trydydd Sector, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, ADSS (Cymru), CLILC a rhanddeiliaid eraill
<b>Trosolwg</b>	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru
<b>Camau i'w Cymryd</b>	Dim - er gwybodaeth yn unig
<b>Gwybodaeth Bellach</b>	<p>Dylid cyfeirio ymholiadau pellach at:</p> <p>Y Gangen Llesiant a Gwella Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 4<sup>ydd</sup> Llawr y Gogledd Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p> <p><a href="mailto:GwellaGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru">GwellaGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru</a></p> <p><a href="mailto:SocialServicesImprovement@gov.wales">SocialServicesImprovement@gov.wales</a></p>
<b>Copïau Ychwanegol</b>	<p>Gellir cyrchu'r ddogfen hon trwy wefan Llywodraeth Cymru yn:</p> <p><a href="https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer">https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer</a></p>
<b>Dogfennau Cysylltiedig</b>	<p>Ymgynghoriad ar fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol <a href="https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer">https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer</a></p> <p>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 <a href="https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents">https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents</a></p> <p>Cod ymarfer cyfredol mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol <a href="https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-y-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer">https://llyw.cymru/mesur-perfformiad-y-gwasanaethau-cymdeithasol-cod-ymarfer</a></p> <p>Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol <a href="https://llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-cenedlaethol-gwasanaethau-cymdeithasol">https://llyw.cymru/fframwaith-canlyniadau-cenedlaethol-gwasanaethau-cymdeithasol</a></p>

## Cynnwys

Cefndir.....	4
Y broses ymgynghori.....	5
Ymatebion.....	5
Cwestiynau a themâu sy'n dod i'r amlwg .....	6
Atodiad A – Rhestr o ymatebion.....	26

## Cefndir

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r sail gyfreithiol i wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar y Papur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu a gyhoeddwyd yn 2011.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am fonitro effaith y Ddeddf ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Er mwyn cyflawni hyn, rhoddwyd amrywiaeth o ddangosyddion canlyniadau a mesuriadau perfformiad ar waith. Maent yn cynnwys:

- Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol<sup>1</sup>
- Y Fframwaith Mesur Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol<sup>2</sup>
- Data Gweithgarwch Awdurdodau Lleol
- Canlyniadau Llesiant Personol

Cafodd y Fframwaith Mesur Perfformiad presennol ar gyfer Awdurdodau Lleol ei gyhoeddi yn 2016 fel Cod Ymarfer<sup>3</sup>. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar dri phrif faes – safonau ansawdd, mesuriadau ansoddol a mesuriadau meintiol – ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol grynhoi data mewn perthynas â'r meysydd hyn.

Mae adborth gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ynghylch ansawdd y data a gyflwynwyd wedi dangos nad yw model presennol y fframwaith yn gweithio yn ôl y bwriad a bod angen ei fireinio. Mae'r adborth hwn wedi bod yn gyson ar draws y sector, ac mae'n cynnwys materion megis y canlynol:

- mae'r mesuriadau perfformiad presennol yn darparu data ar weithgarwch yn hytrach na mesur perfformiad
- nid yw'r mesuriadau yn adlewyrchu'n gywir y cymorth amrywiol mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu mewn perthynas â'r Ddeddf
- nid yw'r mesuriadau'n ymestyn yr awdurdodau lleol nac yn darparu fframwaith iddynt sy'n cefnogi eu gwelliant

---

<sup>1</sup> <https://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/lang=cy>

<sup>2</sup> <https://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/lang=cy>

<sup>3</sup> <https://llyw.cymru/cod-ymarfer-mewn-perthynas-a-mesur-perfformiad-gwasanaethau-cymdeithasol.pdf>

- nid yw elfen ansoddol y fframwaith – yr Arolwg Dinasyddion – o ansawdd digon da ac mae wedi cynhyrchu cyfradd ymateb isel
- nid yw'r safonau ansawdd yn gosod gweledigaeth ddigon cryf ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru

I fynd i'r afael â'r materion hyn, cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Trwy'r gweithdai, awgrymwyd y dylid datblygu Fframwaith Perfformiad a Gwella ehangach a mwy cynhwysfawr a'i gysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## **Y dull newydd**

Datblygwyd y dull newydd i ganolbwyntio ar berfformiad a gwella i'r un graddau. Mae'n cynnwys datblygu Safonau Ansawdd newydd ochr yn ochr â Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Safonau Ansawdd newydd a'r Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw.

## **Y broses ymgynghori**

Aeth yr ymgynghoriad yn fyw ar 13 Mai 2019 gan barhau am 12 wythnos cyn cau ar 5 Awst 2019. I gefnogi'r ymgynghoriad, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ledled Cymru, ar gyfer awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn bennaf.

## **Ymatebion**

Daeth cyfanswm o 43 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac unigolion. Roedd pedwar ymatebydd yn dymuno aros yn ddiennw. O'r rhai a gytunodd i gael eu henwi, rhoddodd 20 o awdurdodau lleol ymateb. Mae rhestr lawn o'r rhai a ymatebodd i'w gweld yn Atodiad A.

## Cwestiynau a themâu sy'n dod i'r amlwg

<b>C1</b>	<b>I ba raddau ydych chi'n cytuno y bydd y Cod Ymarfer (a amlinellir yn Atodiad A) yn helpu awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?</b>			
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Cyfanswm	1	24	5	1
Canrannau (o'r rhai a ymatebodd)	3%	78%	16%	3%

O'r 43 o ymatebion a ddaeth i law, ymatebodd 31 i'r cwestiwn hwn gan adael 12 heb ymateb.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (81%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno y bydd y Cod Ymarfer yn cefnogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliannau mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf.

O'r rhai oedd yn cytuno, roedd llawer yn croesawu cynnwys rhannau ansoddol ac ymchwil a thystiolaeth y cod ymarfer diwygiedig gan ddweud ei fod yn cynrychioli newid i'w groesawu yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn asesu eu gwasanaethau. Soniodd llawer am y strwythur clir ac roeddent yn croesawu'r ffaith y byddai dileu'r dangosyddion perfformiad mewn deddfwriaeth yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran gofynion data perfformiad. Yn olaf, roedd llawer yn cytuno y bu lefel dda o ymgysylltu hyd at y pwynt hwn yn y broses, fodd bynnag nodwyd bod angen i'r lefel hon o ymgysylltu barhau.

Roedd llawer yn teimlo ei bod yn anodd gwybod a fyddai'r Cod Ymarfer yn llywio gwelliant gan mai dim ond gwybodaeth am y metrigau oedd ar gael iddynt. Er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ar y Cod Ymarfer a'r fframwaith, teimlent y dylid darparu mwy o wybodaeth ar yr elfen ansoddol a'r gydran ymchwil a thystiolaeth. Roedd pryderon hefyd y byddai lansio'r elfen fetrig cyn y ddwy gydran arall yn anfon neges i'r sector bod mesurau meintiol, seiliedig ar allbwn yn bwysicach na chanlyniadau a phrofiadau pobl sy'n defnyddio gofal a chymorth.

Cwestiynodd llawer a fyddai'r metrigau'n ddefnyddiol ar lefel genedlaethol oherwydd y gwahaniaethau mewn modelau darparu gwasanaethau ac roeddent yn ansicr beth fyddai Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r data.

O ran y Cod Ymarfer, gwnaed sylwadau ynghylch ei gylch gwaith. Dywedodd rhai bod y swyddogaethau o dan y Ddeddf yn mynd y tu hwnt i awdurdodau lleol ac y dylid eu cydnabod yn y Cod Ymarfer a'r Safonau Ansawdd. Cafwyd sylwadau

hefyd ynghylch Plant a Phobl Ifanc ac amlygwyd y ffaith y dylai plant ddeall darpariaeth ac atebolrwydd y gwasanaeth yn hawdd.

Awgrymodd ymatebwyr y dylai'r Cod Ymarfer fod yn gyfeiriol a bod yn gyson â darnau eraill o ddeddfwriaeth a fframweithiau fel:

- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2015<sup>4</sup>
- Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)<sup>5</sup>
- Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<sup>6</sup>
- Bil Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru)<sup>7</sup>
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015<sup>8</sup>.
- Mwy na Geiriau<sup>9</sup>

Roedd pryderon aruthrol am adnoddau. Soniodd llawer am y ffaith na fyddai'r adnoddau na'r sgiliau staff ganddynt er mwyn rhoi'r Cod Ymarfer a'r fframwaith newydd ar waith.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog y bydd y Cod Ymarfer yn helpu awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant. Bydd mân newidiadau yn cael eu gwneud i'r Cod yn unol â'r sylwadau yn yr ymgynghoriad i sicrhau bod yr iaith yn glir a bod modd defnyddio'r Cod yn ymarferol i lywio gwelliant.

Er bod cylch gwaith y Cod Ymarfer hwn yn edrych yn benodol ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd gwaith yn parhau i ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru barhau i helpu'r sector cyfan i wella.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod lefel yr ymgysylltu gyda'r sector wedi cael derbyniad gwresog, a bydd yn gweithio i barhau i ymgysylltu gydol y broses o ddatblygu, gweithredu a darparu'r fframwaith.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y Cod yn cyfateb i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth a fframweithiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn ei gwneud hi'n glir sut mae'r Cod yn cyfateb i ddeddfwriaeth arall mewn canllawiau dilynol a gynhyrchir i ategu'r Cod hwn.

<sup>4</sup>Cyrchwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 o <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted> ar 21/08/19

<sup>5</sup> Cyrchwyd Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) o <http://senedd.assembly.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=25475> ar 21/08/19

<sup>6</sup> Cyrchwyd Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol o <https://gov.wales/social-services-national-outcomes-framework> ar 21/08/19

<sup>7</sup> Cyrchwyd Bil Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru) o <https://gov.wales/children-abolition-defence-reasonable-punishment-wales-bill> ar 21/08/19

<sup>8</sup> Cyrchwyd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 o <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents> ar 21/08/19

<sup>9</sup> Cyrchwyd Mwy na Geiriau o <https://gweddill.gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy> ar 21/08/19

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth a dderbyniwyd ynghylch plant a'r argymhelliad y dyldid gwneud mwy i sicrhau eu bod yn deall diben y Cod hwn. I helpu plant i ddeall atebolrwydd a darpariaeth gwasanaethau yn well, byddwn yn cynhyrchu fersiwn hawdd ei deall o'r Cod ac yn ystyried beth arall y gallwn ni ei wneud i helpu plant i ddeall y fframwaith wrth ddatblygu dogfennau a chanllawiau dilynol.

C2.	<b>I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Safonau Ansawdd (a amlinellir yn y Cod Ymarfer) yn galluogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?</b>			
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Cyfanswm	1	21	8	1
Canrannau (o'r rhai a ymatebodd)	3%	68%	26%	3%

O'r 43 o ymatebion a ddaeth i law, ymatebodd 31 i'r cwestiwn hwn gan adael 12 heb ymateb.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (71%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno y bydd y Safonau Ansawdd yn cefnogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliannau mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf.

O'r rhai oedd yn cytuno, roeddent yn cefnogi'r ffaith eu bod yn ddyheadau ac nad oeddent yn rhy ragnodol o ran eu natur, a fyddai'n rhoi lle i awdurdodau lleol ddefnyddio dulliau newydd ac arloesol. Roedd llawer yn teimlo y byddent, oherwydd hyn, yn gweithredu fel ysgogydd i gefnogi gwelliant o fewn awdurdodau lleol. Roedd llawer yn croesawu'r ffaith bod cysylltiad clir rhwng canlyniadau cenedlaethol, a'r egwyddorion sydd wedi'u pennu yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Hefyd roedd llawer yn croesawu'r ffaith bod cysylltiad amlwg rhwng fframwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru a'r nodau llesiant ac roedden nhw'n teimlo bod gwerth mewn alinio fframweithiau strategol allweddol, a fyddai'n cefnogi datblygiad Adroddiad y Cyfarwyddwyr hefyd. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon bod y Safonau Ansawdd yn agored i gael eu dehongli ac y gellid eu hystyried yn ddewisol.



Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r Safonau Ansawdd gael eu cysylltu'n glir â 'Cymru Iachach'<sup>10</sup>, 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'<sup>11</sup> a 'Y Ffordd Gywir: Dyfodol addas i blant yng Nghymru'<sup>12</sup>,

Cyfeiriwyd at y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Safonau Ansawdd ar waith. Roedd llawer o'r farn y dylai awdurdodau lleol gael mwy o gymorth a chanllawiau. Cafwyd cyfeiriadau hefyd at y ffaith bod y Safonau Ansawdd yn canolbwyntio hefyd ar swyddogaethau awdurdodau lleol yn hytrach na'r sector cyfan. Roedd llawer o'r farn y dylai'r Cod Ymarfer, gan gynnwys y Safonau Ansawdd, fod yn ehangach nag awdurdodau lleol yn unig,

Roedd llawer o'r ymatebion yn cyfeirio at yr iaith a ddefnyddir yn y Safonau Ansawdd a theimlent y byddai'n fuddiol diwygio'r geiriad i sicrhau ei fod yn fwy seiliedig ar gryfder a'i aralleirio'n benodol (yn y Saesneg) i ddweud 'children who are looked after' yn hytrach na 'looked after children'. Yn yr un modd, awgrymodd rhai bod angen ychwanegu mwy o ran rôl gwasanaethau plant, er enghraifft amddiffyn plant.

Yn olaf, roedd nifer o sylwadau'n amlygu'r ffaith bod gorgyffwrdd rhwng y Safonau Ansawdd a'u bod yn pryderu nad oedd cysylltiad amlwg rhwng y Safonau Ansawdd a'r data (meintiol ac ansoddol). Teimlai rhai y gallai hyn achosi dryswch a rhwystredigaeth pan ddaw'n fater o adrodd.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog y bydd y Safonau Ansawdd yn helpu awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf. Mae mân newidiadau wedi'u gwneud i'r Safonau Ansawdd i sicrhau bod yr iaith yn gyson a bod y derminoleg yn gywir.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ofalus i adborth ar adroddiadau a'r anhawster y gall awdurdodau lleol ei gael oherwydd diffyg cysylltiad clir rhwng y metrigau a'r safonau ansawdd. Fodd bynnag, nid yw'r metrigau wedi'u mapio'n glir i'r Safonau Ansawdd yn fwriadol gan y gall y metrigau ddarparu tystiolaeth ategol ar gyfer safonau ansawdd lluosog, a'r nod yw cael yr hyblygrwydd hwn yn y fframwaith. Darperir canllawiau ochr yn ochr ag Adroddiad y Cyfarwyddwr i helpu awdurdodau lleol i adrodd yn erbyn pob un o'r Safonau Ansawdd.

<b>C3</b>	<b>I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Fframwaith Perfformiad a Gwella (fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer) yn</b>
-----------	---

<sup>10</sup>Cyrchwyd 'Cymru Iachach' o <https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol> ar 21/08/19

<sup>11</sup>Cyrchwyd 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' o <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-canllawiau> ar 21/08/19

<sup>12</sup>Cyrchwyd 'Y Ffordd Gywir: Dyfodol addas i blant' o <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant/y-ffordd-gywir-dyfodol-addas-i-blant-yng-nghymru/> ar 21/08/19

	<b>galluogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?</b>			
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Cyfanswm	1	22	4	3
Canrannau (o'r rhai a ymatebodd)	3%	73%	14%	10

O'r 43 o ymatebion a dderbyniwyd, ymatebodd 30 i'r cwestiwn hwn gan adael 13 heb ymateb.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (76%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno y bydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella'n cefnogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliannau mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf.

O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd cefnogaeth i'r ffaith y byddai pwysoliad tair cydran y fframwaith yn gyfartal. Roedd llawer o'r farn y byddai'r dull newydd yn caniatáu mwy o ffocws ar wrando ar lais y dinesydd. Croesawyd y ffocws ar wella yn y fframwaith newydd hefyd. Awgrymwyd y dylid cysylltu'r Fframwaith Perfformiad a Gwella â dogfennau allweddol eraill fel yr Aseidiadau o Anghenion y Boblogaeth, Aseidiadau Lles, Cynlluniau Ardal ar y Cyd ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Fodd bynnag, roedd llawer yn teimlo bod y diffiniadau yn y fframwaith ar lefel rhy uchel ac yn gofyn am rai newidiadau i'r derminoleg. Roedd llawer o'r farn bod angen canllawiau ac adnoddau hefyd i gefnogi elfennau o'r fframwaith.

Ar gyfer yr elfen feintiol, roedd pryder ynghylch nifer y metrigau a gynigiwyd a'r ffaith nad oes gan rai awdurdodau lleol y seilwaith a'r systemau TG o reidrwydd i allu casglu'r wybodaeth sydd ei hangen.

Nodwyd mewn rhai achosion nad oedd yr arolwg presennol o ddinasyddion yn addas i'r diben, a chroesawyd y dull newydd o gyflwyno'r arolwg. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder ynghylch y diffyg eglurder a manylder yn yr elfen ansoddol ac elfen ymchwil a thystiolaeth y fframwaith. Awgrymwyd argymhellion gan rai ar gyfer y dull ansoddol o weithredu gan nodi na ddylai gynnwys arolwg yn unig, ond y dylai gynnwys grwpiau ffocws yn ogystal â chyfweliadau lled-strwythuredig hefyd. Cafwyd awgrymiadau hefyd ar gyfer yr elfen ymchwil a thystiolaeth, gan awgrymu y dylid cydlynu a defnyddio'r dystiolaeth bresennol sydd eisoes ar gael ac sy'n hygyrch i'r sector yn well.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn ffyddiog y bydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn galluogi awdurdodau lleol i fesur perfformiad a llywio gwelliant mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf.

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r fframwaith yn unol â'r adborth o'r ymgynghoriad, yn benodol yn ymwneud â'r diffiniadau yn y fframwaith. Roedd llawer yn teimlo eu bod ar lefel rhy uchel a bod angen newid terminoleg. Mae'r tair elfen wreiddiol, sef meintiol, ansoddol ac ymchwil a thystiolaeth, wedi'u newid i *'mesur gweithgarwch a pherfformiad', 'deall profiad a chanlyniadau'* a *'defnyddio tystiolaeth i lywio gwelliant'*. Y sail resymegol ar gyfer hyn yw ei fod yn dangos nodau'r fframwaith yn hytrach na'r dulliau y gellid eu defnyddio i gyflawni'r nodau hynny.

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau manwl ar y fframwaith i helpu awdurdodau lleol i'w weithredu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y Cod yn cyfateb i ddogfennau allweddol eraill. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ei gwneud hi'n glir sut mae'r Cod yn cyfateb i ddeddfwriaeth arall mewn canllawiau dilynol a gynhyrchir i ategu'r Cod hwn.

C4	<b>I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y metrigau yn y Canllawiau Technegol yn dangos yr ystod lawn o weithgareddau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â nhw mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf?</b>			
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Cyfanswm	0	15	12	2
Canrannau (o'r rhai a ymatebodd)	0%	52%	41%	7%
<p>O'r 43 o ymatebion a dderbyniwyd, ymatebodd 29 i'r cwestiwn hwn gan adael 14 heb ymateb.</p> <p>Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (52%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y metrigau yn y Canllawiau Technegol yn dangos yr ystod lawn o weithgareddau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgymryd â nhw mewn perthynas â'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a osodir arnynt o dan y Ddeddf.</p> <p>O'r rhai oedd yn cytuno, teimlai llawer fod y metrigau arfaethedig yn gynhwysfawr a'u bod yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a gyflawnir gan awdurdodau lleol. Hefyd roedd llawer yn croesawu'r ffaith ei bod wedi'i rhannu'n bedwar maes sef oedolion, plant, gofalwyr a'r gweithlu.</p> <p>Er bod y data yn gynhwysfawr, amlygodd llawer bod nifer o fylchau yn y data, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Canlyniadau unigolion a gwasanaethau</li> </ul>				

- Cynnydd mentrau cymdeithasol
- Trawsnewid ac arloesi
- Ymarfer creadigol
- Dull seiliedig ar risg gadarnhaol
- Cynnydd
- Gwasanaethau ataliol
- Gweithio cydweithredol
- Therapi galwedigaethol
- Darpariaeth Iechyd Meddwl ar gyfer oedolion a phlant
- Pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion
- Oedi wrth Drosglwyddo Gofal
- Gofalwyr sy'n anabl
- Taliadau uniongyrchol
- Gweithwyr gofal a gyflogir y tu allan i'r awdurdod lleol (Gofal Cartref/Trydydd Sector).
- Contractau'n cael eu hysbysebu ond nad ydynt yn cael eu gosod
- Hyfforddiant staff Gofal Cymdeithasol
- Canlyniadau personol
- Comisiynu
- Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig
- Eiriolaeth a math o eiriolaeth
- Byddardod a cholli clyw

Roedd rhywfaint o bryder bod y metrigau'n canolbwyntio ar brosesau yn hytrach nag ar ganlyniadau a phrin oedd y wybodaeth am effaith gwasanaethau. Codwyd pryderon sylweddol hefyd ynghylch nifer y metrigau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd. Roedd llawer yn meddwl bod gormod ohonynt ac y byddai'n anodd tynnu gwybodaeth o'u systemau presennol. Roedd pryderon sylweddol hefyd bod casglu'r data hwn yn mynd yn groes i ethos y Ddeddf ac yn cynyddu'r baich ar staff rheng flaen gan y byddant yn cael eu tynnu oddi wrth eu dyletswyddau gwaith cymdeithasol i fewnbynnu'r data i'w systemau. Awgrymodd rhai y gallai fod yn fuddiol cael nifer llai o fetrigau mwy penodol neu gyflwyno'r metrigau'n raddol.

Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data ar ei gyfer.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad, cydnabu Llywodraeth Cymru mai hwn oedd y maes a oedd yn peri'r pryder mwyaf i awdurdodau lleol, gyda dim ond 52 y cant yn cytuno bod y metrigau arfaethedig yn dangos yr ystod lawn o weithgareddau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu darparu o dan y Ddeddf.

Yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni llawer o waith ychwanegol i ddatblygu'r metrigau ymhellach.

Cynhaliwyd dadansoddiad trylwyr o'r adborth o'r ymgynghoriad i archwilio ymhellach y metrigau hynny a oedd yn peri'r pryder mwyaf. Rhannwyd y dadansoddiad hwn yn eang gydag awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru, ADSS Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i gael eu

barn ac i bennu a ddylai metrig gael ei fireinio neu ei ddileu. Yn dilyn yr ymarfer hwn, cafodd nifer derfynol y metrigau eu gostwng gan tua 40 y cant. Mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i'r adborth o'r ymgynghoriad, gan sicrhau bod y rhestr derfynol wedi'i llywio gan y sector gofal cymdeithasol.

Bydd y camau nesaf yn cynnwys drafftio diffiniadau a chanllawiau clir a gytunwyd ar y cyd er mwyn cefnogi casglu'r metrigau. Datblygir hyn ar y cyd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol trwy'r Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol<sup>13</sup>.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai bylchau yn y fframwaith o hyd a bod amryw o'r rhain wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad. Mae hyblygrwydd dileu'r metrigau o'r Cod Ymarfer a'u rhoi mewn canllawiau ar wahân yn golygu bod modd gwneud newidiadau a gwelliannau i'r metrigau yn y dyfodol os oes sail resymegol gadarn dros wneud hynny ac os yw'r systemau ar waith i gasglu'r data newydd. Hwyrach y bydd cyfle hefyd i fynd i'r afael â rhai o'r bylchau hyn yn elfen 'deall profiad a chanlyniadau' y fframwaith neu i fynd i'r afael â nhw trwy ymgymryd â phrosiectau ymchwil penodol os nad yw'r systemau ar waith i gasglu'r data. Bydd hyn yn cael ei bennu ar ôl cyflwyno'r fframwaith.

Cododd yr ymgynghoriad faterion yn cynnwys: awdurdodau lleol heb systemau ar waith i gasglu'r data, ddim yn gwybod sut i fesur rhai metrigau, mwy o faich ar awdurdodau lleol a diffyg adnoddau a sgiliau i gyflwyno'r fframwaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad risg manwl i grynhoi mwy o wybodaeth am y materion hyn, a bydd yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol, yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn, gyda'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith.

Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd cwestiynau am y data mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu a sut mae'r data'n cael ei ddefnyddio. Mae'r data a gesglir gan awdurdodau lleol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i lywio datblygiad polisi a deddfwriaeth. Mae'n rhoi sicrwydd hefyd i Weinidogion ac yn rhoi darlun cenedlaethol o ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Yn fwy penodol, mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn defnyddio'r data yn rheolaidd i lywio gweithgarwch adolygu perfformiad thematig ac unigol. Yn olaf, ar ôl ei gyhoeddi, defnyddir y data gan bob math o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector ac ymchwilwyr, ac mae ar gael i'r cyhoedd trwy StatsCymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn i helpu awdurdodau lleol i ddeall sut mae'r data'n cael ei ddefnyddio, a bydd yn datblygu Cynllun Cyfathrebu manwl i gefnogi hyn.

<b>C5</b>	<b>Gan ystyried y metrigau a amlinellir yn y Canllawiau Technegol, a oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol mewn perthynas â'r metrigau a gynigir? Cofiwch gynnwys cyfeirnod y metrig yn eich ymateb.</b>
-----------	--

<sup>13</sup> Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn aelod o'r Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol.

## **Crynodeb**

O'r ymatebion a dderbyniwyd, gwnaeth 51.16% ohonynt sylwadau uniongyrchol ar y metrigau yn y canllawiau drafft.

Derbyniwyd sylwadau ar bob un o'r 4 thema (oedolion, plant, gofalwyr, y gweithlu), ac roeddent wedi'u rhannu fel a ganlyn:

43% - Gwasanaethau Oedolion  
21% - Gwasanaethau Plant  
28% - Gofalwyr  
8% - Y Gweithlu

Dadansoddwyd sylwadau er mwyn pennu clystyrau i asesu pa feysydd a ddenodd y mwyaf o sylwadau:

### **Gwasanaethau Oedolion:**

Ar gyfer oedolion, y meysydd a ddenodd y mwyaf o sylwadau oedd Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy (IAA), Darparu Gwasanaethau, Diogelu, (Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid - DoLS) ac Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DIOC). Roedd sylwadau yn canolbwyntio'n bennaf ar argaeledd ac addasrwydd y data ar gyfer casglu a dadansoddi o fewn y systemau gofal cymdeithasol electronig presennol a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth achos ar gyfer adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Nid oedd llawer o awdurdodau lleol yn casglu data ar gyfer rhai o'r metrigau ar hyn o bryd, neu roeddent yn ei gasglu mewn ffordd a oedd yn ei gwneud hi'n anodd cipio a dadansoddi data (lle roedd data yn cael ei gasglu trwy ddulliau anstrwythuredig e.e. mewn naratif testun rhydd). Mae hyn wedi golygu bod awdurdodau lleol wedi rhagweld yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad y bydd angen gwneud rhai newidiadau sylweddol i'w prosesau a'u systemau. Derbyniwyd sawl sylw hefyd a oedd yn canolbwyntio ar argaeledd data mewn mannau eraill (e.e. DIOC) a'r newidiadau polisi a fydd yn effeithio ar DoLS. Roedd y clystyrau mwyaf arwyddocaol ar gyfer metrigau oedolion yn ymwneud ag IAA. Roedd hi'n amlwg o'r sylwadau bod rhywfaint o ddryswch o hyd ynghylch gofynion IAA a pha ddata y dylid ei gofnodi fel rhan o'r broses hon.

### **Gwasanaethau Plant**

Ar gyfer plant, dyma'r meysydd lle roedd clystyrau yn amlwg - metrigau IAA, Asesiadau (gan gynnwys ailasesiadau), Eiriolaeth a Phobl sy'n Gadael Gofal. Roedd y sylwadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar a oedd y data ar gael i'w gasglu a'i ddadansoddi ar hyn o bryd o'r systemau gofal cymdeithasol electronig presennol, ynghyd â phryderon ynghylch ansawdd y data sydd ar gael. Ar y cyfan, derbyniwyd llai o lawer o sylwadau ar fertigau plant o gymharu â'r rhai ar wasanaethau oedolion. Roedd llawer o'r metrigau arfaethedig eisoes yn cael eu casglu'n lleol ac, ar gyfer y metrigau hynny a dderbyniodd y mwyaf o sylwadau, roedd llawer ond eisiau deall y gofynion casglu yn well. Roedd rhai pethau cyffredin rhwng oedolion a phlant. Roedd hyn yn fwyaf amlwg ym maes IAA, lle roedd y sylwadau'n portreadu'r un materion ag a ddisgrifiwyd ar gyfer metrigau oedolion.

### **Gofalwyr**

Roedd y sylwadau ar ofalwyr yn ymwneud yn bennaf ag argaeledd data ac anallu awdurdodau lleol i gasglu'r data y gofynnwyd amdano heb ddatblygiadau sylweddol i'r system. Maes arall a amlygwyd oedd yr anallu i gasglu data gan drydydd partion neu wasanaethau a gomisiynir a ddarparodd gymorth i ofalwyr. Nododd rhai awdurdodau lleol y bydd gofalwyr yn cael eu hailgyfeirio yn aml i gymorth y tu allan i'r awdurdod lleol yn y cyfnod IAA ac nad oedd mwy o wybodaeth y tu hwnt i'r cyfnod hwn ar gael iddynt bob amser.

### **Y Gweithlu**

Fel gyda gofalwyr. Roedd pryder cyffredinol ynghylch argaeledd data a'r gofyniad ar gyfer newidiadau i'r system. Nododd rhai awdurdodau lleol nad oedd eu systemau Adnoddau Dynol presennol yn gallu casglu'r data hwn ar hyn o bryd.

### **Sylwadau pellach**

Derbyniwyd pob math o sylwadau ar lawer o'r metrigau arfaethedig. Roeddent yn amrywio o geisiadau syml am eglurhad neu fân newidiadau iaith i heriau ynghylch dilysrwydd cynnwys metrig penodol. Ni ddenodd rhai metrigau unrhyw sylwadau o gwbl gan eu bod yn cael eu hystyried yn ddilys ac nad oeddent yn peri pryder. Teimlwyd bod metrigau eraill yn peri pryder neu'n cyflwyno problem benodol h.y. byddai angen datblygu'r system yn sylweddol er mwyn casglu'r data.

Mae'r dadansoddiad manwl o sylwadau yn awgrymu bod y pryder mwyaf ym mhob grŵp demograffig yn ymwneud â'r metrigau IAA. Denodd darpariaeth gwasanaethau i oedolion lawer o sylwadau hefyd, yn bennaf ar y gwahaniaethau mewn modelau gwasanaeth a ddarperir ar lefel leol, y teimlwyd eu bod yn peri risg, yn enwedig ynghylch cysondeb a chydwedoldeb data.

Roedd y diffyg model data a ddisgrifir yn genedlaethol yn peri pryder arbennig i rai awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio ffurflenni a phrosesau a ddiffinnir yn lleol sydd wedi'u teilwra ar gyfer eu modelau ymarfer eu hunain. Hyd yn oed pan ddefnyddir yr un system (WCCIS, er enghraifft), mae gwahaniaethau rhwng awdurdodau o ran sut mae data'n cael ei gofnodi a'i reoli.

Roedd y gallu i wneud y newidiadau angenrheidiol i ddiwygio ffurflenni, systemau a phrosesau yn peri pryder hefyd. Galwodd llawer o'r metrigau newydd am ddata a oedd yn cael ei gofnodi fel data anstrwythuredig yn y cofnodion achos ar y system. Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn bod rhai o'r newidiadau gofynnol yn rhai sylweddol, a theimlwyd bod y diffyg amser, sgiliau ac adnoddau yn fygythiad posibl i gyflwyno'r fframwaith newydd.

Yn olaf, cwestiynwyd maint elfen feintiol y fframwaith newydd. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod gormod o fertigau a bod y rhain yn canolbwyntio gormod ar brosesau gweinyddol yn hytrach na llwyddiant neu ganlyniadau. Nododd rhai awdurdodau lleol, er mai ein nod oedd sicrhau mwy o degwch rhwng gwahanol ddulliau o asesu perfformiad, fod y gofynion data meintiol wedi cynyddu.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Gofynnwyd i Grŵp Ysgrifennu Meintiol Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer rhesymoli i ddileu metrigau a gasglwyd mewn mannau eraill neu lle byddai dulliau casglu amgen yn cynnig gwell dealltwriaeth. Mae metrigau eraill wedi'u haddasu fel bod y sail resymegol ar gyfer casglu yn glir, neu wedi'u symleiddio i'r gwneud hi'n haws i ddehongli a deall y gofynion. Gwnaed y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo hefyd i wneud gwaith ymchwilio pellach ar feysydd lle mae casglu data yn peri problem neu lle mae angen ymchwil bellach. Bydd y gwaith hwn, yn y lle cyntaf, yn cynnwys dadansoddiad pellach o'r ddarpariaeth IAA ledled Cymru sy'n cael ei harwain gan SCIE. Bydd rhan o'r ymchwil hon yn canolbwyntio ar a oes modd casglu unrhyw rai o'r metrigau mewn perthynas â'r maes polisi penodol hwn neu a fydd rhaid mesur yr effaith trwy ddull mwy ansoddol. Bydd elfennau ansoddol ac ymchwil y fframwaith yn cael eu datblygu ymhellach a'u darparu yn yr ail gyfnod gweithredu.

Er y byddwn yn lleihau nifer y metrigau i'w darparu yng nghyfnod un, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gasglu data meintiol fel elfen allweddol o'i strategaeth ddata i wella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae datblygu strategaeth ddata newydd ar gyfer data gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yng ngoleuni gwelliannau i systemau, y cynnydd yng nghyfanswm y data sydd ar gael ac argaeledd technoleg a all alluogi gwell dealltwriaeth o'r data a gedwir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae metrigau yn cael eu dileu o gyfnod un y fframwaith oherwydd cyfuniad o lawer o ffactorau, ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw awgrym bod casglu gwybodaeth am bynciau penodol yn llai pwysig. Yn wir, wrth i systemau gyfateb i'w gilydd yn well a gwelliannau mewn technoleg alluogi dadansoddiad mwy datblygedig o ddata, gall metrigau a phrosesau monitro perfformiad pellach gael eu cyflwyno i'r fframwaith. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn cydweithrediad â'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, a byddant yn cael eu cymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosiect hwn.

Yn ogystal â'r gwaith o resymoli'r metrigau i'w darparu yng nghyfnod un, gofynnodd amryw o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad am fwy o wybodaeth am agweddau ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol a oedd yn cyfateb i'w meysydd gwaith. Bydd pob un o'r awgrymiadau hyn yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru i'w cynnwys yn y fframwaith yn ddiweddarach. Hyblygrwydd y fframwaith i dderbyn eitemau data newydd yw un o'i gryfderau. Mae'r awydd am ddata o safon uchel i'w ddefnyddio i wella gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i allu diwallu'r anghenion hyn nawr ac yn y dyfodol.

Ar gyfer darpariaeth yng nghyfnod un, mae'r metrigau wedi'u newid fel a ganlyn:

Ar gyfer Oedolion:  
Metrigau a Gadwyd



Metrigau a Addaswyd	14
Metrigau a Ddilëwyd	15
Metrigau a Ychwanegwyd	3
Cyfanswm y Metrigau Terfynol	33
% Gostyngiad	33.33%

Ar gyfer Plant	
Metrigau a Gadwyd	38
Metrigau a Addaswyd	11
Metrigau a Ddilëwyd	7
Metrigau a Ychwanegwyd	6
Cyfanswm y Metrigau Terfynol	55
% Gostyngiad	10.91%

Ar gyfer Gofalwyr:	
Metrigau a Gadwyd	6
Metrigau a Addaswyd	12
Metrigau a Ddilëwyd	28
Metrigau a Ychwanegwyd	0
Cyfanswm y Metrigau Terfynol	18
% Gostyngiad	60.87%

**Ar gyfer y Gweithlu:**

Penderfynwyd dileu metrigau'r gweithlu yn gyfan gwbl o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, a bydd y cyfrifoldeb dros gasglu'r holl ddata ar y gweithlu yn cael ei drosglwyddo i Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd y rheswm dros y newid hwn yn unol â'n strategaeth ar gyfer gasglu'r wybodaeth iawn ar yr amser iawn yn y lle iawn.

Mae datblygu'r gweithlu yn rhan o gylch gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru. Maen nhw eisoes yn casglu data ar y gweithlu gofal cymdeithasol y tu allan i awdurdodau lleol gan ddefnyddio Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCDWP). Mae'n gwneud synnwyr i grwpio'r data ar y gweithlu gofal cymdeithasol mewn un casgliad, gan alluogi proses fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd gwaith ar ddatblygu'r rhaglen hon mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid yn parhau yng nghyfnod dau y prosiect.

<b>C6</b>	<p><b>Mae elfen ansoddol y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn dal i gael ei datblygu.</b></p> <p><b>Gan feddwl am Ddata Ansoddol yn benodol, beth ddylai gael ei gynnwys yn yr elfen hon yn eich barn chi fel y gallwn ni ddeall a gwella profiadau pobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofalwyr o gymorth?</b></p>
<p>Fe wnaeth llawer dynnu sylw at yr angen i adolygu'r arolwg dinasyddion presennol. Cafwyd nifer o sylwadau yn awgrymu bod yr arolwg cyfredol yn faich ar</p>	

awdurdodau lleol ac nad yw'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol ac mewn rhai achosion ei fod yn achosi trallod i'r rhai y gofynnwyd iddynt gwblhau'r arolwg.

Roedd sylwadau'n awgrymu na ddylai'r elfen ansoddol gynnwys arolwg yn unig, ond y dylai gynnwys cymysgedd o ddulliau casglu data. Roedd llawer yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o waith yn cael ei wneud eisoes mewn perthynas â dulliau ansoddol gan gynnwys casglu straeon a defnyddio'r dulliau newid mwyaf arwyddocaol yn ogystal ag awdurdodau lleol yn cynnal eu harolygon lleol eu hunain a ddefnyddir i ddeall gwasanaethau. Awgrymodd llawer y byddai'n fuddiol gweithio'n rhanbarthol ac i'r dull newydd gael ei ddatblygu a'i gyd-gynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Ar y cyfan, roedd y mwyafrif yn teimlo y byddai cael arolwg gofal cymdeithasol cenedlaethol annibynnol yn fuddiol. Byddai hyn nid yn unig yn dileu'r baich ar awdurdodau lleol ond byddai hefyd yn galluogi i'r arolwg gael ei ddefnyddio'n fwy cyson ond hefyd yn caniatáu dulliau a chanfyddiadau mwy cadarn.

Dyweddodd llawer y dylai'r dull newydd gynnwys nid yn unig y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth ond y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol mewn rhyw ffordd. Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch hygyrchedd yr arolwg newydd gyda llawer yn awgrymu bod angen iddo fod ar gael i bawb, yn benodol pobl ifanc a'r rhai sydd ag anabledd.

Roedd rhai awgrymiadau o ran cynnwys. Roedd rhai o'r farn y dylai'r arolwg gynnwys data ar y gweithlu, y Gymraeg a'r trydydd sector. Cyfeiriwyd hefyd at ganlyniadau llesiant a'r ffaith y dylai'r arolwg newydd gynnwys mesurau llesiant.

### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r safbwyntiau ar y data ansoddol y dylid ei gynnwys yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gomisiynu Arolwg Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol i ddileu'r rhan fwyaf o'r baich ar yr awdurdodau lleol. Cynhelir yr arolwg hwn gan sefydliad annibynnol, gan gychwyn yn 2020-21, a bydd yn rhan o gyfnod dau y Fframwaith Perfformiad a Gwella a gaiff ei lansio ym mis Ebrill 2021.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi hefyd yr angen i ystyried cymysgedd o ddulliau casglu data ansoddol. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r safbwyntiau hyn ac wedi datblygu grŵp ysgrifennu ansoddol i gynghori ar gyfeiriad y gwaith hwn ac i gefnogi datblygiad cyngor ac arweiniad a sicrhau ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud. Bydd y data ansoddol yn adeiladu ar y metrigau meintiol ac yn archwilio ymhellach effaith, canlyniadau ac ansawdd profiad pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Bydd gwybodaeth am elfen ansoddol y fframwaith yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Deallusrwydd Busnes i gael cyngor, arweiniad a her, cyn cael ei chytuno a'i chymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol. Bydd hyn yn sicrhau, fel gyda'r metrigau meintiol, bod y data ansoddol yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd elfen ansoddol y fframwaith yn cael ei chyflwyno fel rhan o lansiad y cyfnod ym mis Ebrill 2021.

--

<b>C7</b>	<p><b>Mae elfen Ymchwil a Thystiolaeth y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn dal i gael ei datblygu.</b></p> <p><b>Gan feddwl am Ymchwil a Thystiolaeth yn benodol, beth ddylai gael ei gynnwys yn yr elfen hon yn eich barn chi fel y gallwn ni ddeall a gwella profiadau pobl o ofal a chymorth a phrofiadau gofawyr o gymorth?</b></p>
-----------	--

Fe wnaeth llawer dynnu sylw at yr angen am wybodaeth fanylach am y gydran ymchwil a thystiolaeth cyn gallu rhoi sylwadau ar yr elfen hon o'r fframwaith. I'r rhai a roddodd sylwadau, roedd yn amlwg bod angen datblygu hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol. Teimlai llawer y byddai arweiniad, cyrsiau a/neu e-ddysgu'n fuddiol.

Roedd pryderon ynghylch adnoddau hefyd a'r ffaith na fyddai gan awdurdodau lleol y capasiti na'r cyllid i gyflawni'r elfen hon o'r fframwaith.

Fe wnaeth llawer dynnu sylw at yr angen i rannu ymchwil a'r angen am rwydwaith ymchwil gofal cymdeithasol yng Nghymru lle gellid rhannu ymchwil. Nid yn unig y byddai hyn yn cynyddu dysgu ond byddai'n osgoi dyblygu ymchwil hefyd. Yn gysylltiedig â hyn, roedd sylwadau hefyd yn awgrymu y byddai llyfrgell neu ystorfa ymchwil gofal cymdeithasol sy'n hygyrch i awdurdodau lleol yn fuddiol.

Awgrymodd llawer fod mwy o angen cysylltu â phrifysgolion lleol, Ysgol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, y Canolfannau Ymchwil ac Arloesi a'r trydydd sector. Cydnabuwyd hefyd fod angen i'r elfen hon o'r Fframwaith gysylltu â Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol 2018-23.

Fe wnaeth llawer dynnu sylw at yr angen am ymchwil bellach neu ymchwil fwy hygyrch mewn rhai meysydd megis:

- Y Gymraeg
- Comisiynu
- Atgyfeiriadau
- Cyfeiriadau at Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

Ond cydnabuwyd bod angen datblygu cwestiynau ymchwil wedi'u diffinio'n glir cyn comisiynu ymchwil.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r safbwyntiau ar elfen Ymchwil a Thystiolaeth y Fframwaith Perfformiad a Gwella.

Gydol yr ymgynghoriad, nododd llawer mai dim ond un elfen o dystiolaeth yw 'ymchwil' a bod y defnydd o'r gair hwn yn peri dryswch. Yn unol â'r adborth hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi newid enw'r elfen hon i *Defnyddio Tystiolaeth i*

*Lywio Gwelliant.* Mae hyn yn dangos nodau'r fframwaith yn hytrach na'r dulliau y gellir eu defnyddio i gyflawni'r nodau hynny.

Yn yr ymgynghoriad, nododd llawer fod angen mwy o wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau i'w cefnogi gyda'r elfen hon. I fynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ysgol Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol i ddatblygu adnoddau a fydd yn cynnwys:

- diffiniadau cytunedig o ymchwil, tystiolaeth, data a gwerthusiad;
- sut i ddefnyddio data a thystiolaeth yn effeithiol;
- sut i wneud ymchwil effeithiol;
- deall technegau gwerthuso;
- adolygiadau effeithiol gan gymheiriaid.

Bydd y rhain yn cael eu datblygu'n benodol i gefnogi awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, a bydd yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru yn barod ar gyfer lansio'r fframwaith newydd ym mis Ebrill 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac Ysgol Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol i gynnal ymchwil i'r hyn y gellir ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i ddeall a defnyddio tystiolaeth mewn ymarfer. Bydd hyn yn ystyried pethau penodol megis pa ymarfer sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, beth yw ystyr capasiti a pha hyfforddiant fyddai'n ddefnyddiol i awdurdodau lleol.

Bydd hyn yn llywio datblygiad Strategaeth Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol, yn barod ar gyfer cyfnod dau o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella ym mis Ebrill 2021. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i sicrhau bod hyn yn cyfateb i strategaethau sydd eisoes ar waith yng Nghymru.

Bydd gwybodaeth am yr elfen '*Defnyddio Tystiolaeth ar gyfer Gwella*' yn cael ei chyflwyno i'r Grŵp Deallusrwydd Busnes i graffu arno, yna bydd yn cael ei chytuno a'i chymeradwyo gan y Grŵp Gweithredol.

<b>C8</b>	<b>I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y ffurflen Diogelu Oedolion a'r ffurflen Staff adrannau awdurdodau lleol yn addas i'r diben ac y dylid eu cynnwys fel y maent yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd?</b>
-----------	---

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Cyfanswm	1	14	3	1
Canrannau (o'r rhai a ymatebodd)	5%	74%	16%	5%

O'r 43 o ymatebion a dderbyniwyd, ymatebodd 29 i'r cwestiwn hwn gan adael 14 heb ymateb.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (79%) yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y ffurflen Diogelu Oedolion a'r ffurflen Staff adrannau awdurdodau lleol yn addas i'r diben ac y dylid eu cynnwys fel y maent yn y Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd.

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn ddefnyddiol ar lefel leol a chenedlaethol a'u bod yn darparu darlun da o'r gweithgarwch gwasanaeth presennol yng Nghymru. Roedd cefnogaeth hefyd i gadw'r casgliadau hyn oherwydd eu natur hirsefydlog a'r gallu i fonitro gweithgarwch dros amser. Fodd bynnag, cafwyd rhai sylwadau ynghylch y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth a'r ffurflen Diogelu Oedolion. Tynnodd ymatebwyr sylw at y ffaith eu bod yn cymryd llawer o amser i'w cwblhau ac nad oeddent yn werthfawr ar lefel genedlaethol o reidrwydd oherwydd amrywiadau a diffiniadau. Cafwyd un sylw hefyd ynglŷn ag amseru cyflwyno data, a dywedodd fod y rhan fwyaf o ddyddiadau cyflwyno data gofal cymdeithasol ym mis Mai sydd â goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau lleol.

Awgrymodd rhai sylwadau y dylid ychwanegu rhywfaint o ddata ychwanegol at y 'Cyfrifiad' megis dadansoddiadau o anabledd.

Yn olaf, cafwyd sylwadau ynghylch gofynion Llywodraeth Cymru o ran y data a'r cwestiynau ynglŷn â'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r data a gyflwynir. Roedd galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o adborth i awdurdodau lleol ac i gyhoeddi'r data mewn modd mwy amserol hefyd.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Dangosodd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, y ffurflen Diogelu Oedolion a'r ffurflen Staff Adrannau Awdurdodau Lleol i gyd yn addas i'r diben. Bydd y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a'r ffurflen Diogelu Oedolion yn cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru, gyda ffurflen gweithlu ddiwygiedig i gael ei chasglu gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru yn ystyried amseroldeb dyddiadau cyflwyno a chyhoeddi data.

<b>C9</b>	<b>I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfrifiad blynyddol ar gyfer Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth?</b>			
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Cyfanswm	3	17	5	1
Canrannau (o'r rhai a ymatebodd)	12%	65%	19%	4%

O'r 43 o ymatebion a dderbyniwyd, ymatebodd 26 i'r cwestiwn hwn gan adael 17 heb ymateb.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (77%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cyfrifiad blynyddol ar gyfer Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth.

O'r rhai oedd yn cytuno, roedd llawer yn credu y byddai'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaeth a ddarperir ac y gellid ei ddefnyddio at ddibenion cynllunio. Fodd bynnag, roedd sylwadau'n awgrymu y byddai Cyfrifiad Oedolion yn fwy o lawer na'r Cyfrifiad Plant ac felly y byddai pryderon am yr adnoddau sydd eu hangen i gwblhau Cyfrifiad Oedolion. Awgrymodd rhai, pe bai hyn yn mynd rhagddo, y dylai gael ei gyflwyno unwaith y bydd y fframwaith a'r metrigau ar waith.

Cafwyd nifer o sylwadau hefyd yn ymwneud ag anabledd a sut y byddai hyn yn cyd-fynd â'r cyfrifiad newydd. Er ei fod yn ddefnyddiol, soniodd llawer am yr anawsterau o ran casglu data anabledd ac roeddent am i unrhyw gynigion symleiddio'r data anabledd sy'n cael ei ddarparu eisoes.

Cyflwynwyd sylwadau ynghylch beth yn union fyddai'n cael ei gynnwys yn y cyfrifiad oedolion. Roedd ymatebwyr am gael mwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad ac roedd rhai o'r farn y dylai unrhyw gynigion am gyfrifiad gael eu cyd-gynhyrchu.

O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd rhai yn dadlau gwerth cyfrifiad oedolion, gan awgrymu fod y metrigau arfaethedig yn gynhwysfawr eisoes ac y byddent yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth am oedolion yn barod.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i ddatblygu cyfrifiad ar gyfer oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth. I gyfyngu'r baich ar awdurdodau lleol, datblygir y cyfrifiad, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, yng nghyfnod dau o'r fframwaith, ochr yn ochr ag elfennau ansoddol a thystiolaeth y fframwaith. Y bwriad yw y bydd y cyfrifiad newydd hwn yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2021.

<b>C10</b>	<b>Pa gymorth ychwanegol, os o gwbl, y mae angen i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith i helpu awdurdodau lleol i roi'r Cod Ymarfer a'r Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd ar waith?</b>
------------	---

Awgrymodd ymatebwyr amrywiaeth o gymorth ychwanegol y mae angen i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith er mwyn gweithredu'r fframwaith newydd. Maent yn cynnwys:

- Canllawiau clir sy'n cynnwys terminoleg gynhwysfawr, diffiniadau a disgrifiad clir o 'sut beth yw da'. Byddai hyn yn caniatáu i fetrigau fod yn llai agored i'w dehongli
- Canllawiau ar ddulliau o gyfrifo'r metrigau er mwyn sicrhau cysondeb
- Llai o fetrigau
- Mwy o fanylion am y cydrannau ansoddol a'r cydrannau ymchwil a thystiolaeth sy'n dangos yr hyn a ddisgwylir gan awdurdodau lleol yn glir
- Amserlen fesul cam ar gyfer casglu a chyflwyno data
- Amser ychwanegol i weithredu'r fframwaith newydd, gan fod pryderon na fydd systemau'n barod ar gyfer Ebrill 2020.
- Adnoddau ychwanegol mewn awdurdodau lleol. Cynnwys adnoddau ariannol, staff a hyfforddiant i gefnogi casglu a dadansoddi'r data.
- Cefnogaeth i dynnu data o bob system. Mynegwyd rhai pryderon na fyddai awdurdodau lleol yn gallu tynnu'r data o WCCIS ac y byddai angen cymorth arnynt i ddatblygu adroddiadau newydd
- Sail resymegol glir gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn y bydd y data a gyflwynir yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.
- Gwell ymgysylltu ar draws pob lefel er mwyn sicrhau bod cysondeb yn galluogi arferion gorau.
- Cydlynu gwell rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar bob lefel.

#### **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y newidiadau a'r effaith y bydd y rhain yn ei chael ar awdurdodau lleol, a'r angen i helpu awdurdodau lleol i weithredu'r Cod newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i'r canlynol er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu, gweithredu a defnyddio'r Fframwaith Perfformiad a Gwella:

- Llai o fertigau yn seiliedig ar yr adborth o'r ymgynghoriad
- Canllawiau a diffiniadau llawn yn ymwneud â'r metrigau a ddatblygir gan yr Is-grŵp Adrodd Cenedlaethol
- Adolygu'r amserlen casglu data a chyhoeddi canlyniadau
- Dileu arolwg dinasyddion o awdurdodau lleol gyda'r nod o gomisiynu Arolwg Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol gan ddarparwr allanol.

- Cymorth a chanllawiau ychwanegol ar yr elfen 'deall profiad a chanlyniadau' a ddatblygir gan y Grŵp Ysgrifennu Ansoddol.
- Cydweithrediad pellach ar yr elfen 'defnyddio tystiolaeth ar gyfer gwella'
- Adnoddau ymchwil cychwynnol i'w cyhoeddi erbyn mis Ebrill 2020
- Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y Fframwaith Perfformiad a Gwella
- Cyfathrebu clir gan Lywodraeth Cymru yn ystod y broses weithredu a gydol y cyfnod darparu.
- Parhau â'r Grŵp Deallusrwydd Busnes i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu rhannu â'r sector a sicrhau bod yr holl awdurdodau lleol yn parhau yn rhan o'r trafodaethau hyn.
- Ymrwymo i ddarparu diweddiadau rheolaidd i ADSS Cymru trwy'r Grŵp Gweithredol

C11	Pa fertigau y dylid eu datblygu i fesur effaith ac effeithiolrwydd integreiddio a ffyrdd o weithio'n integredig?
<p>Roedd llawer o sylwadau'n adlewyrchu'r ffaith nad yr awdurdodau lleol yn unig ddylai ddarparu metrigau integredig. Roedd rhai sylwadau'n awgrymu gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn awgrymu y dylent hwy arwain y gwaith o adrodd ar hyn. Roedd llawer yn cydnabod yr anhawster wrth ddatblygu metrigau ar y cyd ac yn awgrymu, pe bai unrhyw rai yn cael eu datblygu, y dylem edrych ar yr hyn a gesglir ar draws ieched a gofal cymdeithasol yn y lle cyntaf er mwyn archwilio a oes unrhyw fetrigau addas yn cael eu casglu eisoes. Dylid datblygu unrhyw fetrigau newydd ar y cyd a dylid cael gweledigaeth glir ar draws ieched a gofal cymdeithasol o ran sut y dylai gweithio integredig edrych – awgrymodd un ymatebydd y dylid defnyddio '<i>Stepping up to the place: integration self assessment tool</i>'<sup>14</sup> – i helpu i gefnogi'r broses hon.</p> <p>Nododd llawer na all effeithiolrwydd integreiddio a gweithio integredig gael ei fesur drwy fetrigau'n unig ac y dylid ei ystyried mewn nifer o ffyrdd megis astudiaethau achos, adolygiadau gan gymheiriaid a dulliau ansoddol sy'n canolbwyntio ar brofiadau pobl sy'n yn derbyn nifer o wasanaethau.</p> <p>Ar gyfer y rhai a awgrymodd fetrigau ar y cyd roeddent yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Amserau aros asesu yn CAMHS</li> <li>- Mynediad i CAMHS</li> <li>- Costau staffio</li> <li>- Nifer yr achosion a welwyd gan dîm aml-broffesiynol</li> <li>- Mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth</li> <li>- Trefniadau caffael</li> <li>- Comisiynu</li> <li>- Llwybr gyrfa gweithwyr gofal</li> <li>- Gwaharddiadau o'r ysgol i'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth</li> </ul>	
<p><b>Ymateb Llywodraeth Cymru:</b></p>	

<sup>14</sup> *Stepping up to the place: integration self-assessment tool* - <https://www.local.gov.uk/stepping-place-integration-self-assessment-tool> - cyrchwyd ar 21/08/10



Mae awdurdodau lleol i gyd ar wahanol lefelau integreiddio ac wedi defnyddio dulliau gwahanol i drefnu ac integreiddio eu gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall hyn gyflwyno her o ran datblygu metrigau integredig sy'n berthnasol ar draws pob awdurdod lleol. Gall fod problemau hefyd o ran pennu pwy sy'n gyfrifol am y data pan fo metrigau integredig yn cael eu hystyried, ac mae angen i hyn gael ei gytuno yn gynnar yn y broses i osgoi anawsterau posibl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac eraill i weld beth yw'r ffordd orau o gasglu metrigau a thystiolaeth integredig, a fydd yn ffurfio cyfnod dau o'r fframwaith. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hefyd a oes angen gwneud mwy o ymchwil yn y maes hwn i ddeall y dulliau a'r effaith ar waith integredig.

<b>C12a</b>	<b>Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?</b>
<b>C12b</b>	<b>Ydych chi'n credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?</b>

Ni wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. O ran y rhai a ymatebodd, roeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig gan y byddai'n caniatáu gwell dealltwriaeth o unigolion â nodweddion gwarchoddedig sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol am gyngor a/neu gymorth yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth.

Roedd y mwyafrif yn teimlo na fyddai unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, awgrymodd rhai y byddai adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fuddiol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad ac mae'n fodlon na fydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn cael effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. I sicrhau hyn, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei adolygu, yn unol â'r gyfraith, a bydd yr effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn cael ei hystyried yn fwy manwl.

<b>C13</b>	<b>Esboniwch hefyd sut credwch chi y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid:</b>
------------	--

	<p><b>a) fel y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac</b></p> <p><b>b) fel na fydd yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</b></p>
<p>Ni wnaeth mwyafrif yr ymatebwyr sylwadau ar y cwestiwn hwn. O ran y rhai a ymatebodd, roeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan y byddai'n caniatáu dealltwriaeth leol a chenedlaethol o'r ffordd y mae darpariaeth Gymraeg yn cael ei defnyddio a byddai'n sicrhau bod dull cyson o ddefnyddio a thrin y Gymraeg ar sail gyfartal.</p> <p>Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y gellid gwella'r metrigau arfaethedig ar y Gymraeg er mwyn casglu i sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 14(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.</p>	
<p><b>Ymateb Llywodraeth Cymru:</b></p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad, ac mae'n fodlon na fydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y Gymraeg. I sicrhau hyn, bydd yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei adolygu.</p>	

## Atodiad A - Rhestr o ymatebion

Cyfeirnod	Cyfrinachol	Ymatebydd	Sefydliad
001	Ydy		
002	Ydy		
003	Ydy		
004	Nac ydy	Jane Davies	Cyngor Sir y Fflint
005	Nac ydy	Eli Crouch-Puzey	Cymorth i Ferched Cymru
006	Nac ydy	David Harding	Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot
007	Nac ydy	Julie Boothroyd	Cyngor Sir Fynwy
008	Nac ydy	Dyfan Barr Michael Jones	Cyngor Sir Ddinbych
009	Nac ydy	Samuel Stone	Cymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol
010	Nac ydy	James Langridge	Cyngor Sir Powys
011	Nac ydy	Elizabeth Flowers (ar ran Sally Holland)	Comisiynydd Plant Cymru
012	Nac ydy	Kerry O'Donovan	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

013	Nac ydy	Jill Griffiths Simon Jones John Grenfell	Cyngor Abertawe
014	Nac ydy	Peter Tyson	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
015	Nac ydy	Vicky Poole	Arolygiaeth Gofal Cymru
016	Nac ydy	Claire Lucignoli	Rhiant/Gofalwr
017	Nac ydy	Cerys Jones	Cyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru
018	Nac ydy	Aled Roberts	Comisiynydd y Gymraeg
019	Nac ydy	Alyson Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
020	Nac ydy	Valerie Bilingham	Age Cymru
021	Nac ydy	Morwenna Edwards	Cyngor Gwynedd
022	Nac ydy	Claire Marchant L Carver	Cyngor Caerdydd Cyngor Bro Morgannwg
023	Nac ydy	Beth Evans	Gofalwyr Cymru
024	Nac ydy	Tracy Amos	Cyngor Sir Penfro
025	Nac ydy	Catherine Franklin Donna Schofield	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
026	Nac ydy	Joel Martin	Cyngor Sir Gâr
027	Nac ydy	Anne Elgin	Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
028	Nac ydy	Beth Phillips	Gofal Cymdeithasol Cymru
029	Nac ydy	Unsain	Unsain
030	Nac ydy	Joe Powell	Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
031	Nac ydy	Nicola Free	Rhondda Cynon Taf
032	Nac ydy	Joanne Griffin	Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru
033	Nac ydy	Carol Walker	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
034	Nac ydy	Dai Davies	Coleg Brenhinol Therapïau Galwedigaethol
035	Nac ydy	Stewart Blythe	ADSS Cymru CLILC Data Cymru
036	Nac ydy	Adrian Bailey	Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe
037	Nac ydy	Heb ei ddarparu	Cyngor Casnewydd
038	Nac ydy	Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru
039	Nac ydy	Joff Lee	Cyngor Sir Ceredigion
040	Nac ydy	Nicola Evans	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
041	Nac ydy	Heb ei ddarparu	Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru
042	Ydy		
043	Nac ydy	John Dyer	WCCIS

